Ask for/*Gofynnwch am* **Deborah Weston**
Our Ref/*Ein Cyf* **DW/WM4**
Your Ref/*Eich Cyf*
Tel/*Ffôn* **01633 210631**
Direct Dial/*Rhif Union* **01633 210631**
DX
E-Mail/*E-Bost* school.reorg@newport.gov.uk

Education Service
Gwasanaeth Addysg

Civic Centre/Canolfan Ddinesig
Newport/Casnewydd
South Wales/De Cymru
NP20 4UR

26 Mehefin 2020

Annwyl Randdeiliad,

Cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac i adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli.

Mae'r ymgynghoriad swyddogol llawn bellach wedi'i gwblhau gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gynnig i:

- Sefydlu ysgol gynradd eginblanhigyn cyfrwng Cymraeg ar safle gwag cyn-Ysgol Babanod Caerleon Lodge Hill o fis Medi 2021;
- I adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli o'i safle presennol i adeilad newydd ar ddatblygiad Whiteheads, ac wrth wneud hynny, i gynyddu capasiti'r ysgol ar gyfer disgyblion prif ffrwd o 546 i 630 a'i Chanolfan Adnoddau Dysgu (CAD) o 10 i 20 lle o Ionawr 2023, ac;
- Wedi hynny, i drosglwyddo'r ysgol eginblanhigyn i leoliad parhaol ar safle'r Ysgol Gynradd Pilgwenlli bresennol o fis Medi 2023.

Rhoddodd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd ystyriaeth i'r holl farnau a fynegwyd ac ymatebion a ddaeth i law yn ystod y broses ymgynghori statudol ac mae wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig. Felly, cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol ar 2 Mawrth 2020 am gyfnod o 28 diwrnod a ddaeth i ben ar ddydd Llun 30 Mawrth 2020.

Ni ddaeth unrhyw wrthwynebiad i law yn ystod y cam statudol hwn ac felly gwnaethpwyd y penderfyniad terfynol gan Aelod Cabinet Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd. Mae'n bleser gennyf gadarnhau y caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r amlinelliad a nodwyd yn yr ymgynghoriad a'r hysbysiad statudol o fis Medi 2021.

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor yn http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx

Cofion cynnes,

Sarah Morgan

Sarah Morgan
Prif Swyddog Addysg
Chief Education Officer